# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias a Sara Dafydd

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar leoedd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn ymgorffori ymagwedd holistaidd drylwyr at gydnerthedd cymunedol ac unigol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio |
| **Cadeirydd** | **Rachel Jarvis**, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Timothy Bray**, **Sara Dafydd,** Lynne Walters, Lyndon Griffiths, Bethan Lloyd Davies, Cllr Alun Williams, Rhodri Llwyd, Dr Sarah Groves-Phillips, **Y Cynghorydd Keith Henson**, Beti Gordon, Emily Edwards, **Anwen Thomas**, **Teleri Elias,** Bethan Howell | Prifysgol Aberystwyth | Rhodri Llwyd Morgan, **Dewi Day** |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | Yvette Eley, Thomas Vetter, Peter Frost |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Paul Williams, Terri Shaw, Owen Harris, **Sharon Hughes** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Mark Stevens |
| Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru | Rhys Horan, Huw Lewis, Brian Drysdale | Cynllun Ynni Canolbarth Cymru | Thomas Yeo |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru | Rhys Horan, Huw Lewis, Brian Drysdale | Coleg Sir Gar/Ceredigion | Vanessa Cashmore, Louis Dare |
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Neil Evans | CMGC | **Chesca Ross** |
| EcoDyfi | **Andy Rowland** | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, Vikki Butler |
| Cyngor ar Bopeth | Juliet Morris | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Kelly Williams, Daniel Priddy |
| Partneriaeth Natur Lleol | **Rachel Auckland** | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 18/07/23** |
|---|
| **<u>11.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:</u>** Croesawodd y Cadeirydd, Rachel Jarvis (RJ) yr aelodau i'r cyfarfod a chyflwynodd pawb eu hunain. Nodwyd bod y canlynol wedi anfon eu hymddiheuriadau: *Rhodri Morgan, Bethan Lloyd Davies, Sarah Groves-Phillips, Y Cynghorydd Alun Williams a Rhys Horan.*<br><br>**<u>11.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:</u>**<br>Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 yn gywir.<br><br>**<u>11.3 Eitem Sefydlog: Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028:</u>**<br>Dywedodd Tim Bray fod y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2023-2028 wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mai a bod Strwythur Llywodraethu a Chyflawni ar waith ar hyn o bryd a oedd yn amlinellu sut y byddai pob amcan a thasg yn y Cynllun Llesiant yn cael eu cyflawni yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Cadarnhaodd TB fod cyfarfod wedi'i gynnal yn ddiweddar gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), Hazel Lloyd-Lubran (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion) a Gavin Bown (Cyfoeth Naturiol Cymru), i drafod y ffordd orau o fwrw ymlaen â chyflawni'r gwaith a chytuno ar hynny. Gan fod y Cynllun Llesiant |

DRAFT

yn cynnwys nifer o dasgau o dan bob amcan, cytunwyd yn y cyfarfod hwn y dylid trefnu'r tasgau a'u blaenoriaethu i sicrhau bod nifer llai o weithgareddau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn llwyddiannus. Awgrymodd Hazel Lloyd-Lubran y dylid cynnal 4 gweithdy hybrid, gyda phob un ohonynt yn canolbwyntio ar y 4 amcan a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol. Cadarnhaodd TB y byddai'r gweithdai yn cael eu cynnal rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, ac y byddai'r swyddogion yn cysylltu ag aelodau'r Bwrdd i ganfod a fyddent ar gael i weithredu fel hwyluswyr ym mhob sesiwn. Byddai'r cam gweithredu arfaethedig hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi. Dywedodd TB fod trafodaethau wedi eu cynnal yng nghyfarfodydd y Bwrdd ynghylch lansio'r Cynllun Llesiant Lleol ond bod yr aelodau wedi cytuno y dylid bwrw ymlaen â hyn unwaith y byddai'r gwaith o flaenoriaethu'r tasgau wedi'i gadarnhau.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu fersiwn ddrafft Strwythur Llywodraethu a Chyflawni Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028.**

**<u>11.4 Cyflawni'r Cynllun Llesiant:</u>**
Gweler eitem 11.6 – Mapio'r cynlluniau presennol a nodi'r blychau.

**<u>11.5 Partneriaeth Natur Lleol Ceredigion – Gwarchod bioamrywiaeth ar draws Ceredigion a throsolwg o'r 'Cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2023-25':</u>**
Rhoddodd Rachel Auckland (RA) gyflwyniad ar Bartneriaeth Natur Lleol Ceredigion. Dywedodd fod gan bob Partneriaeth Natur Lleol ledled Cymru eu hamcanion eu hunain yn unol â dwysedd y boblogaeth a bioamrywiaeth yn yr ardaloedd hynny ond mai eu nod cyffredin oedd atal y dirywiad ym myd natur erbyn 2030 a'i wrthdroi. Roedd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn gynllun ar gyfer Cymru gyfan ac roedd ar gyfer pawb a oedd yn ymwneud â'r maes bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd nifer o amcanion wedi'u nodi i fynd i'r afael â'r materion a oedd yn achosi'r dirywiad o ran bioamrywiaeth, ac i gefnogi adferiad:

- Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel;
- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well. Gan gynnwys y gofyniad i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw pwysicaf a'r mathau pwysicaf o gynefinoedd o safbwynt cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru;
- Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd;
- Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd;
- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro; a
- Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.

DRAFT

Yn ogystal â'r 6 amcan, roedd 5 thema gweithredu drawsbynciol yn deillio o'r amcanion. Roedd matrics yn cael ei ddefnyddio i gofnodi cynigion y partneriaid a'u dymuniadau gan ddod â thirfeddianwyr a chyllidwyr, a llunwyr polisi a darparwyr tystiolaeth ynghyd. Er nad oedd Adroddiad Sefyllfa Byd Natur wedi'i baratoi ar gyfer Ceredigion hyd yma, dywedodd RA mai'r gobaith oedd y byddai modd sicrhau cyllid at y diben hwn yn y dyfodol gan y byddai'n cyfrannu at y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Local Nature
Partnership Presentat

Cynllun grant cyfalaf a oedd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol oedd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Bwriad y cynllun oedd gwella ac adfer asedau naturiol ar draws Cymru yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Cadarnhaodd RA fod cynllun wedi'i gyflwyno i'r panel am gyllid ar gyfer 2023-2025, a'i bod ar hyn o bryd yn aros i weld a fyddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo. Roedd y Bartneriaeth Natur Lleol yn gweithio gyda phobl hŷn, pobl anabl a'r darparwyr tai  i greu gerddi ar gyfer cartrefi gofal a llety gwarchod. Y gobaith eleni oedd y byddai modd ymestyn y thema hon i ddemograffig ehangach a gwneud mwy o waith o ran creu a rheoli gwlyptiroedd. Nododd RA fod y Bartneriaeth Natur Lleol hefyd yn gobeithio cydweithio â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn y dyfodol gyda'r amcan o greu ardal dyfu ar y campws.

Nododd RA fod yn rhaid i'r Bartneriaeth Natur Lleol adrodd ar ddyletswyddau ynghylch bioamrywiaeth bob 3 blynedd fel rhan o ofynion adrodd Adran 6. O ran y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, roedd yn rhaid cyflwyno adroddiadau bob chwarter i'r sawl a oedd yn cyllido'r gwaith, ac roedd y grŵp llywio yn cwrdd bob pythefnos. Hefyd, cadarnhaodd RA fod Gwasanaeth Natur Cymru ar hyn o bryd yn aros i glywed am dynged astudiaeth ddichonoldeb a chynllun busnes yr oedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth a oedd yn rhoi sylw i gyfuno adferiad natur, sgiliau gwyrdd a'r economi yn ehangach.

Dywedodd y Cadeirydd a RA y gallai prosiectau posibl gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod ar y gweill. Yn sgil y gwaith ymgynghori a wnaed ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ynghylch gwella profiad yr ymwelwyr, cynigiwyd bod y tiroedd, gan gynnwys y tir pori y tu blaen i'r adeilad a'r ogofâu, yn cael eu defnyddio, gyda'r posibilrwydd o sefydlu prosiectau bioamrywiaeth. Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i brosiectau posibl yn Ysbyty Bronglais, gan gynnwys gardd a man

therapiwtig ar gyfer y staff a'r cleifion. Cadarnhaodd nifer o aelodau'r grŵp prosiect y byddent yn mynd i gyfarfod o'r Bartneriaeth Biosffer yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 21.07.23.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu sleidiau'r cyflwyniad am Bartneriaeth Natur Lleol Ceredigion.**

**11.6 Mapio'r cynlluniau presennol a nodi'r blychau:**

Pwysleisiodd RJ mor bwysig oedd y gwaith mapio a oedd eisoes yn cael ei wneud gan fod hyn yn sicrhau nad oedd dim dyblygu. Yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd y byddai taenlen yn cael ei dosbarthu ymhlith yr aelodau fel y gallent ei llanw ar ran eu sefydliadau gan nodi'r cynlluniau a'r prosiectau a oedd eisoes yn cyflawni rhai o'r tasgau o dan Amcan 3 y Cynllun Llesiant Lleol. Y gobaith oedd y byddai hyn yn nodi'r blychau ac yn dangos lle y byddai modd i'r grŵp prosiect ychwanegu gwerth a'r ffordd y gallai wneud hynny. Dangosodd RJ y daenlen a'r diweddariadau yr oedd y partneriaid wedi'u darparu hyd yma ar y sgrin.

Mynegodd Dewi Day (DD) bryder nad oedd rhai o'r ymatebion a oedd wedi dod i law hyd yma yn cyd-fynd yn llawn â'r tasgau yn y Cynllun Llesiant Lleol. Cynigiwyd y dylid craffu ar yr ymatebion a'r dystiolaeth i sicrhau ein bod yn dal i ganolbwyntio ar yr amcanion gwreiddiol. Dywedodd Sharon Hughes (SH) fod datgarboneiddio yn flaenoriaeth i'r gwasanaethau cyhoeddus a chytunodd fod rhoi dyheadau strategol ar waith yn anodd oherwydd prinder adnoddau a diffyg cyllid. Byddai'r rhwystrau hyn yn golygu y byddai'n anodd iawn cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030. Pwysleisiwyd mor bwysig oedd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gan wneud y mwyaf o asedau cyrff cyhoeddus eraill a gwneud y defnydd gorau o gyllid lle bo hynny'n bosibl. Cytunodd RJ ei bod yn bwysig tynnu sylw at y materion hyn ac unrhyw rwystrau a oedd yn ein hatal ni rhag cyflawni gan uwchgyfeirio'r materion hyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**CAM GWEITHREDU: Byddai RJ yn diweddaru'r daenlen a ddefnyddir i fapio'r gwaith gan gynnwys colofn 'Rhwystrau o ran Cyflawni / Problemau.' Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu'r daenlen ddiwygiedig fel y gallai'r aelodau ei llanw a'i dychwelyd i fewnflwch y Tim Partneriaethau.**

**11.7 Adolygu aelodaeth yr is-grŵp a'r cysylltiadau â grwpiau perthnasol eraill:**

Cytunwyd y dylai aelodaeth y grŵp prosiect gael ei hadolygu'n gyson, yn enwedig wrth i'r ffrydiau gwaith ddatblygu ac i rôl cynrychiolwyr penodol ddod yn fwyfwy pwysig. Cytunodd y grŵp prosiect fod angen i'r ymwneud â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru fod yn fwy effeithiol, a dywedwyd y dylid cysylltu â Rhys Horan i sicrhau bod cynrychiolydd yn dod i'r cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn cysylltu â Rhys Horan i sicrhau bod cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ynni yn dod i'r cyfarfod nesaf.**

**<u>11.8 Diweddariadau gan bartneriaid:</u>**
Roedd Sarah Groves-Phillips (SGP) wedi anfon ei hymddiheuriadau ond gwnaeth RJ rannu gwybodaeth ar ei rhan: Hyd yma, nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â materion yn ymwneud â maethynnau yng nghyswllt yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol ac roedd pawb yn dal i aros am gyhoeddiad o ran y data morol. Yn y cyfamser, roedd yr ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn parhau drwy'r Bwrdd Rheoli Maethynnau a hynny er mwyn adfer ansawdd dŵr Afon Teifi. Roedd Cynllun Rheoli Maethynnau yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a oedd yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Lleol a Dŵr Cymru. Y bwriad oedd amlinellu atebion lliniarol strategol yn seiliedig ar natur gan gofio'r sefyllfa anodd o ran hyfywedd yn yr ardal dan sylw. Roedd y gwaith o ran y prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau yn parhau ac fel rhan o'r gwaith hwnnw, roedd ffensys wedi'u gosod ar lannau'r afon yn nalgylch Afon Teifi ac roedd cynlluniau ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy mewn 5 tref ar hyd yr afon. Hefyd, roedd 10 o gynlluniau rheoli ffermydd ar waith ac roedd dau safle gwlyptir yn cael eu datblygu hyd at y camau cynllunio er mwyn cyflawni dyletswydd Adran 6 o ran adfer afonydd. Roedd gwaith yn parhau ar amrywiaeth o brosiectau ar Afon Teifi ac roedd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i ddyfarnu'n ddiweddar fel y gellid gosod SONDIAU neu SONDES (mesuryddion monitro ansawdd dŵr) ar hyd yr afon (y cyntaf yng Nghymru) a recriwtio Swyddog Rheoli Maethynnau i fonitro ansawdd dŵr ac i weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth.

Ar ran Bethan Lloyd Davies, dywedodd Keith Henson (KH) fod strategaeth newydd yn cael ei hystyried a fyddai'n galluogi pob gwasanaeth i gynnig syniadau posibl ynghylch sut y gellid lleihau allyriadau a chynnig y cyfle i ystyried prosiectau gwahanol.

Dywedodd DD fod Prifysgol Aberystwyth wedi cyhoeddi ei Strategaeth Sero-Net a oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau. Roedd y Brifysgol ar hyn o bryd yn caffael ymgynghorwyr i ystyried Cynllun Gweithredu Gwella Bioamrywiaeth ar draws yr ystâd. Hefyd, rhoddodd DD ddiweddariad am brosiect Rhwydwaith Gwresogi Ardal Aberystwyth – ar hyn o bryd, nid oedd dim arian ar gael ar y raddfa a fyddai ei hangen i roi'r prosiect ar waith. Serch hynny, roedd opsiynau eraill yn cael eu hystyried ac roedd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau cymorth.

Cadarnhaodd SH fod Cynllun Datgarboneiddio presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau tan 2025, a bod gwaith yn cael ei wneud arno ar hyn o bryd, yn seiliedig ar y cyllid a'r adnoddau a oedd ar gael. Byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru ar ddiwedd 2023. Hefyd, dywedodd SH ei bod yn debygol y byddai

allyriadau'r Bwrdd Iechyd yn cynyddu eleni oherwydd ffactorau megis effaith Covid-19, cynnydd o ran galwadau'r cleifion a milltiroedd busnes. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r gwariant wedi cynyddu. Serch hynny, roedd gwahanol gynlluniau yn cael eu hystyried megis y trefniadau rheoli meddygol lle byddai modd dosbarthu meddyginiaethau a oedd wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiadau defnyddio i bractisau milfeddygol.

Dywedodd Chesca Ross (CR) fod Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) yn gobeithio gweithio gyda RA a'r Awdurdod Lleol ar gynllun grantiau bach a oedd yn gysylltiedig â'r amgylchedd. Roedd CAVO hefyd am weithio gydag Asiantaeth Ynni Hafren Gwy ar eu prosiect cyfleusterau cymunedol ac arbed ynni.

Nodwyd ei bod yn amserol adolygu dewis iaith yr aelodau wrth gyfrannu yng nghyfarfodydd y grŵp prosiect, ac felly cytunwyd y byddai e-bost yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau i ofyn am y wybodaeth hon. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, byddai angen i o leiaf 10% o'r aelodau nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael. Pe byddai'r trothwy hwn yn cael ei fodloni, byddai'r trefniadau perthnasol yn cael eu gwneud.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn cysylltu ag aelodau'r grŵp prosiect i gadarnhau eu dewis iaith wrth gyfrannu at drafodaethau yng nghyfarfodydd y grŵp prosiect.**

**11.9 Eitem sefydlog: A oes angen i ni drafod unrhyw fater a godwyd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru?:**
Cytunwyd y byddai'r eitem sefydlog hon yn cael ei hystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf yn dilyn gweithdai'r Cynllun Llesiant Lleol.

**10.10 Unrhyw Fater Arall:**
Oherwydd prinder amser, cynigiwyd y byddai gwybodaeth am Grant Draenio Cynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei dosbarthu i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu manylion am Grant Draenio Cynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

DRAFT

**Cyfarfod nesaf:** Rhwng 10:00 a 12:00 ar 26.10.2023 - Canolfan Les Llanbedr Pont Steffan

DRAFT